

Y Casglwr

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon, Gwynedd

CYMDEITHAS BOB OWEN

Tâl aelodaeth: £7.50 y flwyddyn

(Awst - Gorffennaf neu

Ionawr - Rhagfyr) i'w anfon i'r

Trysorydd

SWYDDOGION

Cadeirydd:

Rhidian Griffiths

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Aberystwyth, Ceredigion

Ysgrifennydd:

Gwyn Tudur Davies

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Aberystwyth, Ceredigion

(01970) 623174

Trysorydd:

Gwynhaf Roberts

Cae'r Hafod, Maes Caled

Dolgellau LL40 1UF

(01341) 423959

Golygydd:

Mel Williams

Tan-y-Castell, Llanuwchllyn

Y Bala, Gwynedd LL23 7TA

ebost:tanycastell@yahoo.com

(01678) 540652

Pwyllgor Gwaith y Gymdeithas:

Y Swyddogion

Mrs Mair Edwards

Maredudd ap Huw

Dafydd Glyn Lloyd Hughes

E. Wyn James

Dafydd Jones

Huw Ceiriog Jones

Rheinallt Llwyd

Deian ap Rhisiart

Y RHIFYN NESAF

Erthyglau a mân

hysbysebion i'r **GOLYGYDD**

ERBYN Mai 21

Cynnwys

Y Goron arall, William Owen	1
Golygyddol	2
Eryl Wyn Rowlands ar fore Sul	3
Yr Hen Glochyddion	5
Elfed Owen ar drywydd achau	7
Eluned Lee yn rhyfeddu	8
Eglwys Glan Rhyd Idwal	9
Don Treharne yn hela	10
Pigion Bruce	15
Clywf y Cyfresi 4	19
Adolygiad	20



Cibyn, Caernarfon,
Gwynedd LL55 2BD

**Argraffwr a
Chyhoeddwr**

Ffôn: (01286) 674486

GWASANAETH Y DEILLION

Mae'r gymdeithas uchod yn darparu
tapiau llafar o erthyglau sy'n ymddangos yn y
Casglwr i Danysgrifwyr y Gymdeithas.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â

Miss Anne K. Till (01970) 820235

Golygyddol

NEWYDDION da sydd gennyf i chi yn y rhifyn hwn. Mae aelodaeth y Gymdeithas yn cynyddu yn gyflym. Daw ymholiadau cyson o Loegr hefyd ac mae mwy a mwy yn talu eu tanysgrifiadau drwy archeb banc. Mae'n amser, bellach, rhoi sylw arbennig i farchnata ac i gysylltu â'r holl gymdeithasau Cymreig sy'n ffynnu ym Mhrydain. Pe byddem ni'n cael dau gant ychwanegol o aelodau gallem yn hawdd newid diwyg Y Casglwr yn gyfangwbl. Mae i fyny i bob un ohonom ni, hefyd, geisio ennill un aelod arall.

Hoffwn weld dechrau teithiau cerdded i fannau hanesyddol, dyweder, unwaith y mis, a chael aelodau lleol i arwain y teithiau hyn. Gallent gynnwys ymweliadau â llyfrgelloedd, cyfle i weld rhwymwr llyfrau wrth ei waith, gweld hen ffilmiau lleol, mynychu arddangosfeydd o bob math, megis ar hen grochenwaith a phaentiadau Cymreig. Gellid, hefyd, drefnu cyrsiau byr ar fore Sadwrn ar sut i ofalu am, rhwymo a glanhau llyfrau. Cynigiwch syniadau. Mi fyddai hyn yn sicr yn codi proffil y Gymdeithas ac yn ennill aelodau newydd. Syniad arall yw rhannu Cymru'n ddaearyddol, a chael cynrhychiolydd o'r ardaloedd hyn ar y Pwyllgor Gwaith er mwyn cynnig syniadau ffres. Os ydym am oroesi, mae'n rhaid ehangu.

Mae'r ffeiriau llyfrau wedi ennill eu plwyf bellach, ond yr unig wendid rwy'n weld ar y foment yw fod y gynulleidfa yn denau iawn ar ôl cinio. Mi fyddwn yn

hoffi cael rhyw fath o arwerthiant o hen lythyrau enwogion. ac yn aml ceir hyd i rai rhwng tudalennau hen lyfrau ac ati. Tybed a fyddai gennych chi, yr aelodau, ddi-ddordeb mewn gwerthu rhai sydd yn eich meddiant, a bod y Gymdeithas yn cael, dyweder, 10% o'r pris gwerthu? Mi fyddwn yn gwneud rhestr o flaen llaw yn Y Casglwr i nodi pa lythyrau sydd ar werth, neu hyd yn oed hen lyfrau arbennig. Rwy'n siŵr y byddai hyn yn tynnu'r tyrfaoedd.

Dymuna'r Gymdeithas ddiolch yn ddiffuant i'r holl aelodau hynny sydd wedi bod yn gyrru rhoddion ariannol i chwyddo'r coffrau. Mae hyn yn sicr yn dangos eu gwerthfawrogiad. Mae canran uchel, hefyd, yn cefnogi'r raffl fawr, a hyn oll yn fodd i gadw'r tanysgrifiad yn isel. Hoffwn ddiolch i'r rhai sy'n barod i gyfrannu erthyglau. Maent yn gwneud gwaith y golygydd yn llawer rhwyddach. Hebddynt hwy, ni fyddai yna gylchgrawn o gwbl. Daliwch ati. Croesewir cyfraniadau newydd gan unrhyw aelod.

Colli aelodau

Collwyd sawl aelod yn ddiweddar:

Trefor Edwards, Parc, Y Bala

Gwilym Griffith, Casnewydd

Dewi Roberts, Treuddyn

*Dymuna'r Gymdeithas
gydymdeimlo â'r teuluoedd yn eu galar.*

At y Golygydd

Cae'r Wylan,
Nant Bychan,
Moelfre,
Ynys Môn

Yn ddiweddar, mi welais ddau bot glas efo'r geiriau 'Caerwys 1568-1968' arnynt, a'r pris 50 ceiniog!

Cefais lyfrau, sef *Crwydro Sir Fflint* (T. I. Ellis) ac *Eisteddfodau Caerwys*, o siop lyfrau yn y Rhyl i egluro'r cefndir. Dyma'r addurniad o flaen fy llyfrau!

Yn gywir,

WYNNE LEWIS

